COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH 22 HYDREF 2024 AM 14:30

Yn Bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Farr | HM Williams | E L P Caparros | P Davies |
| M J Evans | M Jones | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Alex Rawlin | Rheolwr Perfformiad a Pholisi Corfforaethol |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp - Gweithio Integredig |
| Jason Bale | Rheolwr Gweithredol (Menter a Gwasanaethau Arbenigol) |

Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd Neelo Far fuddiant personol yn Eitem 14 ar yr Agenda

## 372. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24/09/2024 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

## 373. Adroddiad Cynnydd ar Reoli Ansawdd Aer Lleol 2024

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Rheoledig a Rennir adroddiad oedd yn darparu'r Cabinet gyda diweddariad ar fonitro aer lleol yr ymgymerwyd ag o ar draws Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn 2023.<br><br>Eglurodd fod Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2024 yn cadarnhau yn ystod 2023 bod tri safle wedi'i leoli ar Stryd y Parc wedi mynd y tu hwnt i'r amcan ar gyfer ansawdd aer ar gyfer nitrogen deuocsid fel y rhagnodir yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000 a'r Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygiedig) (Cymru) 2002. Mae pob lleoliad arall o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i gwrdd â'r amcanion ansawdd aer perthnasol.<br><br>Rhoddodd wybod fodd bynnag yn 2023 bod dau o'r safleoedd wedi cofnodi ffigyrau cyfartalog blynyddol o 43.3µg/m3. oedd i lawr o 19% a 22% ers 2019. Mae wedi dangos tuedd o ostwng yn gyson oddi ar 2019. Nodwyd bod rhagor o fanylion yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Eglurodd yr Aelod Cabinet Cyllid a Pherfformiad fod y gwasanaeth hwn yn un o'r pwysicaf a ddarperir a'r un sy'n cael ei anghofio amdano fwyaf.<br><br>Nododd yr Aelod Cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd fod yr adroddiad yn cyfeirio at 'Commercial Road' ym Maesteg, sy'n gamgymeriad, gan y dylai ddweud 'Commercial Street'. |

| | |
|---|---|
| | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol adroddiad oedd yn gais am gymeradwyo'r Polisi Disgyblu diwygiedig gan y Cabinet, fel yr atodir yn Atodiad 1.<br><br>Eglurodd, yn dilyn ymgynghoriad gydag undebau llafur, eu bod wedi cytuno i ddiwygio'r polisi gyda'r nod o ddarparu cysondeb yn ogystal ag adnoddau a thempledi wedi'u diweddaru er mwyn sicrhau cynnydd effeithiol. Roedd rhagor o fanylion am y newidiadau wedi'u crynhoi yn adran 3 yr adroddiad ac yn llawn yn atodiad 1.<br><br>Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gwasanaethau Ieuenctid nad oedd y polisi hwn yn berthnasol i Aelodau Etholedig, a dim ond staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol mai dyma oedd yr achos, a bod Cod Ymarfer Aelodau yn delio gydag Aelodau Etholedig ar wahân.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>1. yn nodi canlyniadau monitro ansawdd aer a gasglwyd yn 2023 ac i gytuno ar gwblhau Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2024 (ynghlwm fel Atodiad 1) i'w gyflwyno fel fersiwn derfynol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2024, a;<br><br>2. nodi’r cynnydd a wnaed yn datblygu'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer ar gyfer Stryd y Parc. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

**374. Polisi Disgyblu**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad i'w gymeradwyo gan y Cabinet ar gyfer ymestyn tymor y cytundeb partneriaeth gyda Greenwich Leisure Ltd (GLL) / Halo Leisure Services Ltd (Halo). Gofynnodd am i'r Cabinet adolygu'r risgiau a amlinellwyd yn yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | Datganodd fod y Cyngor wedi caffael sefydliad partner a fydd dros y 12-18 mis nesaf yn cefnogi datblygu'r strategaeth Pen-y-bont ar Ogwr Actif yn dilyn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru a'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2020. Bydd yr ymarfer hwn yn cynnwys isadeiledd hamdden ochr yn ochr â chyfleoedd ehangach sy'n cefnogi gweithgaredd a lles yn y gymuned ond bydd yn helpu'r Cyngor i adnabod ei strategaeth tymor hir.<br><br>Rhoddodd wybod, ym mis Awst 2023, bod y Cyngor wedi derbyn cynnig ffurfiol gan Halo ynghylch rhoi ystyriaeth i ymestyn tymor y Bartneriaeth Byw'n Iach am gyfnod o 5 mlynedd i 2032 a'r rhesymeg dros ystyriaeth o'r fath.<br><br>Fe wnaeth Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch buddion cael estyniad, ynghyd â'r arbedion ariannol fyddai'n digwydd o'u cymharu gyda rhai yn 2012-13. Roedd yna fodd bynnag oblygiadau ariannol o barhau gyda'r bartneriaeth ac fe'u hamlygwyd yn adran 8 yr adroddiad.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, mewn perthynas â 3.9 ynghylch addasu'r cytundeb, beth fyddai'r perygl i'r awdurdod pe baem yn cael ein herio. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, yn dilyn y broses VEAT y byddai hyn yn lliniaru'r risg fel Cyngor. Ymhelaethodd y Swyddog Monitro ar y broses VEAT a lle byddai'r rheoliadau hynny o fudd i'r Cyngor y tu hwnt i broses gaffael lawn.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Disgyblu diwygiedig. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

## 375. Cynnig i Ymestyn Tymor y Bartneriaeth Byw'n Iach gyda GLL / Halo Leisure

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc adroddiad oedd yn rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniadau archwiliad Estyn yn ystod tymor yr haf 2024 i Ysgol Gynradd y Ffaldau ac Ysgol Gynradd Babyddol St Robert. |

| | |
|---|---|
| | Eglurodd fod Ysgol Gynradd Ffaldau wedi derbyn archwiliad gan Estyn ym mis Mai 2024 ac i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar 16 Gorffennaf 2024; roedd y cryfderau yr adroddwyd arnynt gan yr archwiliad yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Ychwanegodd bod 2 argymhelliad oedd wedi'u darparu i'r ysgol ac roedd y rhain fel a ganlyn:<br>1. Gwella gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n helaeth ar draws y cwricwlwm ar lefel oedd yn herio'n addas.<br>2. Gwella presenoldeb disgyblion.<br><br>Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl ifanc fod Ysgol Gynradd Babyddol St Robert wedi derbyn archwiliad gan Estyn ym mis Mai 2024 a chyhoeddwyd yr adroddiad ar 23 Gorffennaf 2024.<br><br>Ychwanegodd bod 1 argymhelliad oedd wedi'i ddarparu i'r ysgol ac roedd hwnnw fel a ganlyn:<br><br>1. Mireinio'r addysgu er mwyn galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau ynghylch sut roeddent yn dysgu a defnyddio eu sgiliau digidol yn annibynnol.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod adolygu Ysgol Gynradd Nantymoel hefyd yn dilyn yr archwiliad ym mis Ionawr 2023 ac roedd yna 5 argymhelliad a ddarparwyd yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gwasanaethau Ieuenctid ei ddiolchgarwch i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'i Dîm, y Cyrff Llywodraethu Ysgolion yn ogystal ag uwch dîm rheoli'r ysgolion am dderbyn yr archwiliadau a gwella'r gwasanaethau a ddarparwyd yn yr ysgolion oedd yn dyst i weithio'n gadarnhaol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cytuno:<br><br>1. I ymestyn tymor y cytundeb partneriaeth Byw'n Iach gyda GLL/Halo yn seiliedig ar arbedion cost a nodwyd ac osgoi risgiau penodol,<br><br>2. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, AD a Pholisi |

| | |
|---|---|
| | Corfforaethol a’r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, i ddatblygu'r estyniad arfaethedig ac ymrwymo i gytundeb amrywio gyda GLL/Halo ac unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n angenrheidiol i weithredu'r estyniad |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

**376. Canlyniadau Arolygiadau ESTYN o Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod Tymor yr Haf 2024**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc adroddiad ar gyfer Polisi Plant sy'n Colli Addysg (CME) ar gyfer 2024.<br><br>Eglurodd fod polisi CME yn hanfodol a'i fod yn cyfrannu at les a hawliau addysgol plant a phobl ifanc. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gydymffurfio gydag amrywiaeth o fframweithiau deddfwriaethol sy'n ei alluogi i roi ei ddyletswydd gyfreithiol ar waith er mwyn lleoli, asesu, monitro ac olrhain plant sy'n colli addysg. Mae'r polisi CME newydd yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol oddi ar 2016 pan gafodd y polisi ei ddiweddaru ddiwethaf.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai am eglurder ynghylch beth oedd S2S. Eglurodd y Rheolwr Grŵp Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc mai porth ar gyfer y DU gyfan oedd S2S. Pe bai plentyn yn cael ei ddad-gofrestru o ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a bod dim ysgol newydd yn cael ei chofnodi yna byddai'r wybodaeth yma yn mynd ar y porth. Pe bai'r plentyn yna wedyn yn cael ei gofrestru i ysgol arall unrhyw le yn y DU yna byddem yn dod yn ymwybodol o hyn.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai am eglurder ynghylch beth oedd S2S. Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp Blynyddoedd Cynnar a Phobl ifanc mai cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol y bu i'r plentyn ddad-gofrestru ohono oedd hyn.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau beth oedd niferoedd y CMEau ar hyn o bryd. Datganodd y Rheolwr Grŵp Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc o heddiw ymlaen mai 30 oedd y ffigwr hwn, ond ei fod yn newid yn ddyddiol oherwydd amrywiol resymau. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

**377. Polisi Plant sy'n Colli Addysg**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad, gan geisio cymeradwyaeth y Cyngor i ddyfarnu Fframwaith a bod yn rhan o Gytundeb Fframwaith, gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu nodi yn yr adroddiad er mwyn gwneud gwaith angenrheidiol ac a oedd wedi'i ariannu drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGau).<br><br>Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Mawrth 2022, ymgymerwyd â'r gwaith, ochr yn ochr â chydweithwyr yn y timau caffael corfforaethol a chyfreithiol i ddatblygu'r dogfennau tendr angenrheidiol, gan gynnwys Gwahoddiad i Dendro a Thelerau ac Amodau Cytundeb Fframwaith. Nodwyd y costau yn 3.3 o'r adroddiad ynghyd â'r rhai oedd yn ymgeisio am bob rhan o'r gwaith yn 3.9 o'r adroddiad.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai pam y bu i'r fframwaith gymryd cyhyd â hyn i'w gwblhau. Datganodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid iddi fod yn broses hir ers pan ddechreuwyd delio gyda cheisiadau DFGau ac mai'r bwriad yn y lle cyntaf oedd i'r broses gael ei hadolygu yn gynnar yn 2020, ond iddi gael ei gohirio'n sylweddol oherwydd problemau Covid.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet ar gyfer Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai pe bai gwaith wedi'i gymeradwyo ar breswylfa breifat, a fyddem yn codi tâl ar yr eiddo fel bod modd cael arian yn ôl pe bai'n cael ei werthu. Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid pe bai'r tŷ o fewn 10 mlynedd i'r gwaith gael ei gwblhau yna byddem yn gallu cael arian yn ôl ar gyfer hynny.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r polisi PCA sydd ynghlwm yn Atodiad 1 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

## 378. Fframwaith Grant Cyfleusterau i’r Anabl

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer argymell adolygiad o'r Polisi Isafswm Darpariaeth Isafswm ar gyfer 2024-25.<br><br>Rhoddodd wybod bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r Polisi MRP Blynyddol 2024-25 fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf ym mis Chwefror 2024. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig newid y cyfrifiad o MRP gafodd ei adnabod ym mharagraff i. a ii. o'r Polisi. Roedd rhagor o fanylion yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Datganodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad fod cyngor allanol wedi'i geisio cyn dod â'r polisi hwn gerbron y Cabinet a bod y newidiadau yn unol â chanllawiau presennol a'u bod yn cwrdd â'r safonau a osodwyd gan ein rheoleiddwyr. Ychwanegodd bod y dull hwn hefyd yn cymryd i ystyriaeth y gwerth am arian o safbwynt amser a oedd yn bwysig ar gyfer rhagfynegi a dangosyddion eraill.<br><br>PENDERFYNWYD: bod y Cabinet:<br><br>• Yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn:<br><br>• Yn cymeradwyo dyfarnu Fframwaith Grant Cyfleusterau i’r Anabl ac yn awdurdodi'r Cyngor i ymrwymo i Gytundeb Fframwaith gyda chynigwyr llwyddiannus a nodir yn yr adroddiad hwn i gyflawni gwaith sy'n ofynnol gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

## 379. Polisi Darpariaeth Refeniw Ofynnol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad oedd yn diweddaru'r Cabinet ynghylch sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor o 30ain Medi 2024.<br><br>Tanlinellodd Tabl 1 yn yr adroddiad y Gymhariaeth cyllideb yn erbyn yr alltro a ragwelwyd ar gyfer 30ain Medi 2024. Y sefyllfa gyffredinol a ragwelwyd ar 30ain Medi 2024 oedd gorwariant net, gwerth £6.797 miliwn, gan gynnwys £8.801 miliwn o orwariant net ar gyfarwyddiaethau a thanwariant net, gwerth £2.004 miliwn, ar gyllidebau ledled y Cyngor. Ceir dadansoddiad manwl o'r gorwariant a'r tanwariant rhagweladwy mwy sylweddol yn adran 3.3.<br><br>Pwysleisiodd yr Arweinydd bod llawer o waith i'w wneud o hyd er mwyn lleihau'r gorwariant ymhellach. Adleisiwyd y farn hon gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Pherfformiad. Tra bod y sefyllfa wedi gwella roedd mwy o waith i'w wneud o hyd er mwyn dod â'r gwariant yn ôl yn unol â'r gyllideb.<br><br>PENDERFYNWYD: bod y Cabinet yn argymell bod y Cyngor:<br><br>• yn cymeradwyo adolygu Polisi DRO 2024-25 ar gyfer cyfrifo DRO ar wariant cyfalaf a ariennir o fenthyca â chymorth a digymorth ar sail llinell syth i ddull blwydd-dal a bod Datganiad Darpariaeth Refeniw Ofynnol diwygiedig yn cael ei gymeradwyo (Atodiad A). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

**380. Monitro Cyllideb 2024-25 – Rhagolwg Refeniw Chwarter 2**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet er mwyn derbyn arian benthyciad gan Drawsnewid Trefi: Cronfa Gorfodi Eiddo Gwag Llywodraeth Cymru ac i fynd i gytundebu ynghylch sawl benthyciad gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel yr Awdurdod oedd yn gyfrifol am reoli'r Gronfa ar hyn o bryd.<br><br>Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dri phrosiect eiddo gwag ar waith ar hyn o bryd sy'n cwrdd â meini prawf Cronfa Gorfodi Eiddo Gwag Llywodraeth Cymru. Amlygwyd y prosiectau hyn yn adran 3 yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | Croesawyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai a dywedodd ei fod yn beth cyffredin clywed gan y cyhoedd nad oedd digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag eiddo gwag ym Mhen-y-bont ar Ogwr ond bod yr adroddiad hwn yn dangos bod peth o'r gwaith oedd wedi ei wneud.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid a oedd yna unrhyw ffyrdd o wella'r berthynas gyda Chynghorau Tref er mwyn sicrhau gweithio'n gydweithredol gan fod ganddynt yn aml well mewnwelediad a syniadau nad ydynt o fewn cwmpas Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid fod yna eisoes nifer o weithio ar y cyd yn digwydd gyda Swyddogion a'r Cynghorau Tref a Chymuned ac mai dyma oedd yr achos yn arbennig gyda SRSau, ond cytunodd eu bod yn debygol o fod ffynhonnell wybodaeth fuddiol ar gyfer y gronfa hon a'i phwrpasau.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Cabinet y sefyllfa refeniw ragamcanol ar gyfer diwedd blwyddyn 2024-25. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

**381. Cronfa Gorfodi Eiddo Gwag Trawsnewid Trefi**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cabinet ar y cynnydd a wnaed o safbwynt datblygu cyfleusterau tennis newydd ar draws y fwrdeistref, mewn cydweithrediad gyda'r Lawn Tennis Association (LTA), ac er mwyn sicrhau bod penderfyniad allweddol yn cael ei wneud ynghylch penodi gweithredwr allanol ar gyfer rheoli a chynnal y cyrtiau.<br><br>Eglurodd fod y gwaith adnewyddu nawr wedi ei gwblhau a'u bod yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gan yr adran Mannau Gwyrdd, fodd bynnag, oherwydd lefel y gwaith roedd yn angenrheidiol bwrw ymlaen gyda phenodi gweithredwr allanol ar gyfer cyfnod o 15 mlynedd. Roedd rhagor o fanylion yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Tanlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y ffigyrau ar gyfer yr incwm gweithredu rhagweladwy dros gyfnod o 15 mlynedd ar gyfer pob un o'r pedwar safle, sy'n cael eu dangos yn Atodiad |

| | |
|---|---|
| | A, yn ogystal â'r costau a amcangyfrifir ar gyfer adnewyddu'r cwrtiau ym mlynyddoedd 10-12 ddangosir yn Atodiad B.<br><br>Roedd yr Aelod Cabinet Dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd yn falch o weld, o dan adran 5 yr adroddiad bod rhestr hir o oblygiadau cadarnhaol o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai pwy fyddai'n cwrdd â'r gost o atgyweirio o ganlyniad i fandaliaeth. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y byddai hyn hefyd yn cael ei ystyried o dan waith cynnal a chadw a gwaith adnewyddu.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Yn cytuno i lunio cytundebau benthyg lluosog gyda CBS Rhondda Cynon Taf at ddiben cael gafael ar gyllid benthyciadau o dan Gronfa Gorfodi Eiddo Gwag Trawsnewid Trefi.<br><br>2. Yn dirprwyo awdurdod i Bennaeth Partneriaethau a Thai mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid a'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, AD a Pholisi Corfforaethol i:<br><br>○ Drafod a threfnu gweithredu unrhyw gytundebau benthyg gyda CBS Rhondda Cynon Taf fel yr awdurdod cyfrifol dros reoli'r Gronfa Gorfodi Eiddo Gwag Trawsnewid Trefi; ac<br>○ I ymrwymo i unrhyw gytundebau pellach sy'n ategol i'r diben. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

**382. Cytundeb Rheoli Cyfleusterau Tennis**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cabinet ar y cynnydd a wnaed o safbwynt datblygu cyfleusterau tennis newydd ar draws y fwrdeistref, mewn cydweithrediad gyda'r Lawn Tennis Association (LTA), ac er mwyn sicrhau bod penderfyniad allweddol yn cael ei wneud ynghylch penodi gweithredwr allanol ar gyfer rheoli a chynnal y cyrtiau. |

| | |
|---|---|
| | Eglurodd fod y gwaith adnewyddu nawr wedi ei gwblhau a'u bod yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gan yr adran Mannau Gwyrdd, fodd bynnag, oherwydd lefel y gwaith roedd yn angenrheidiol bwrw ymlaen gyda phenodi gweithredwr allanol ar gyfer cyfnod o 15 mlynedd. Roedd rhagor o fanylion yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Tanlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y ffigyrau ar gyfer yr incwm gweithredu rhagweladwy dros gyfnod o 15 mlynedd ar gyfer pob un o'r pedwar safle, sy'n cael eu dangos yn Atodiad A, yn ogystal â'r costau a amcangyfrifir ar gyfer adnewyddu'r cwrtiau ym mlynyddoedd 10-12 ddangosir yn Atodiad B.<br><br>Roedd yr Aelod Cabinet Dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd yn falch o weld, o dan adran 5 yr adroddiad bod rhestr hir o oblygiadau cadarnhaol o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai pwy fyddai'n cwrdd â'r gost o atgyweirio o ganlyniad i fandaliaeth. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y byddai hyn hefyd yn cael ei ystyried o dan waith cynnal a chadw a gwaith adnewyddu.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>1. Yn cymeradwyo dyfarnu contract consesiwn ar ffurf Cytundeb Gweithredwr i Tennis Wales Limited, yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn yr adroddiad hwn;<br><br>2. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol -Cymunedau i drafod telerau terfynol cytundeb gweithredwr mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid a'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, AD a Pholisi Corfforaethol, i ffurfio'r Cytundeb Gweithredwr ac unrhyw gytundebau ategol ac i roi unrhyw ganiatâd sydd ei angen ar ran y Cyngor.<br><br>3. Nodwyd y bydd Tennis Cymru Cyfyngedig yn destun cytundeb prydles neu drwydded gyda'r Cyngor i adlewyrchu'r gofynion safle-benodol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

## 383. Dyraniadau o dan Gynllun Grant Cyfalaf y Cyngor Tref a Chymuned, Rownd 2 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad oedd yn ceisio sicrhau cymeradwyaeth gan y Cabinet er mwyn dyrannu arian cyfalaf i Gynghorau Tref a Chymuned ddatblygu prosiectau yn unol â'r argymhellion a gynhwyswyd o fewn yr adroddiad hwn o ail gam Cynllun Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned 2024-25.<br><br>Eglurodd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi neilltuo £50,000 ar gyfer 2024-25 ac ar gyfer y blynyddoedd dilynol bod y Cyngor wedi cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf er mwyn cefnogi ceisiadau gan Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer prosiectau cyfalaf. Gyda'r arian oedd yn cael ei ddwyn ymlaen o 2023-24, y gyllideb ar gael ar gyfer 2024-25 oedd £219,186.00.<br><br>Ychwanegodd fod Tabl 2 yn dangos ceisiadau cam 2 Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned 2024-25, bod Tabl 3 yn dangos yr asesiad gan Banel Ariannu Cynghorau Tref a Sir a bod Tabl 4 yn darparu manylion am y ceisiadau yr argymhellir eu bod yn cael eu cymeradwyo ar gyfer Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned 2024-25.<br><br>Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd yr adroddiad gan ddatgan ei fod yn union beth roedd y Cynghorau Tref a Sir ei angen. Gyda'r cyfarfod yr wythnos hon, a phe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad hwn, rydym ar y trywydd cywir ar gyfer gweithio'n fwy cydweithredol. Dywedodd ein bod angen bwrw golwg dros feini prawf sicrhau'r arian grant hwn gan nad oedd nifer o Gynghorau Tref a Chymuned yn gymwys.<br><br>Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu darparu rhai gwasanaethau penodol ar raddfa fwy, mai'r Cynghorau Tref a Chymuned oedd y rhai oedd yn gallu darparu'r rheini o ddydd i ddydd<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cymeradwyo dyrannu cyllid cyfalaf o fewn y Rhaglen Gyfalaf bresennol o £61,171.26 o dan gynllun Grant Cyfalaf Cyngor Tref a Chymuned, rownd 2, 2024-25 i ddatblygu prosiectau yn unol â'r ceisiadau penodol a nodir yn Nhabl 2 a 3. |
| Dyddiad Gwneud y | 22 Hydref 2024 |

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | |

**384. Adnewyddu Depo Priffyrdd Waterton Parc Afon Ewenni**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn gohirio’r eitem hon tan yn ddiweddarach hyd nes bod angen mwy o fanylion ynghylch y cyllid cyfalaf sydd ei angen |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

**385. Polisi Rhywogaethau Ymledol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad oedd yn cyflwyno'r drafft Polisi Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol i'r Cabinet i'w gymeradwyo, ac i wneud cais am benderfyniad gan y Cabinet mewn perthynas â beth fyddai'r ffordd orau ymlaen er mwyn trin Clymog Japan ar asedau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Cynghorodd Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i roi triniaeth Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol ar ei daliadau tir ond bod dulliau ac amlder yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd gwasanaeth. Mae gan ddull anghyson o drin y mater y potensial i gynyddu'r risg o heriau cyfreithiol, ac felly er mwyn lliniaru risg her gyfreithiol, awgrymir newid dull er mwyn cynyddu cysondeb o ran dull y driniaeth ac amlder y driniaeth yn gyffredinol. Roedd rhagor o fanylion yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Mae'r polisi triniaeth Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol (INNS), a atodir yn Atodiad 1, wedi cael ei drafod a'i gytuno arno gan holl aelodau grŵp gweithio INNS Cyngor Bwrdeistref Sirol.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Pherfformiad a oedd y polisi hwn yn berthnasol i Lysiau'r Gingroen. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod y polisi hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar Lysiau'r Diafol, y Ffromlys Chwarennog, a'r Rhododendron yr ystyrid eu bod gyda'r mwyaf peryglus yng |

| | |
|---|---|
| | Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Cytunodd yr Aelodau Cabinet fod sicrhau bod trin a rhwystro'r rhywogaethau hyn rhag tyfu ymhellach ledled Pen-y-bont ar Ogwr yn bwysig a bod y polisi yn caniatáu dull mwy cyson o wneud hyn.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Yn nodi'r gwaith a wnaed gan swyddogion.<br><br>2. Yn cymeradwyo'r polisi drafft, sydd ynghlwm fel Atodiad 1.<br><br>3. O ystyried yr opsiynau rheoli a gyflwynwyd yn adran 3.6, a'u goblygiadau ariannol a gyflwynwyd yn adran 8.7 a oedd yn destun cynnig twf cyllidebol, cytunwyd y bydd penderfyniad ar yr opsiwn rheoli a ffefrir yn cael ei wneud fel rhan o'r broses gyllidebol a'i benderfynu gan y Cyngor ym mis Chwefror 2025. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

**386. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

**387. Gwahardd y Cyhoedd**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Nid oedd yr eitem ganlynol i gael ei chyhoeddi am ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y diffinnir ym Mharagraffau 14 Rhan 4 a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf |

| | |
|---|---|
| | Llywodraeth Leol 1972, fel y’i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.<br><br>Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cabinet yn unol â'r Ddeddf ystyried yr eitem hon yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o’r fath. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

**388. Pafiliwn y Grand Porthcawl - Diweddariad ar Gyllideb y Prosiect a Chais am Gymeradwyaeth i Fynd Allan i Dendro ar gyfer Contract y Prif Waith**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Roedd y penderfyniad hwn wedi'i eithrio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22 Hydref 2024 |

Daeth y cyfarfod i ben am 16:30